O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif. 2322 (Cy. 254)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Corwen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

Gwnaed	*11 Medi 2012*
Yn dod i rym	*24 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Corwen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 24 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd yng Nghorwen yn Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Tŷ Isa, i'r dwyrain o Gorwen, i ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A494 wrth oleuadau traffig Tyn-y-cefn, i'r gorllewin o Gorwen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.